# <u>Gwelliant Cymhwyster Etholiadol</u>

Pasiwyd gan: Y Senedd

Pasiwyd ar: 19/04/2021

Yn darfod ar: **19/04/2023**

**Statws: Cyflawn**

**Swyddog sy'n gyfrifol: Llywydd yr Undeb**

## Crynodeb

Sicrhau bod etholiadau'n cydymffurfio â Siarter y Myfyrwyr a Chyfansoddiad yr UM.

## Manylion

O dan y Cymwysterau Etholiadol ar gyfer Etholiadau Undeb y Myfyrwyr, ar hyn o bryd nid oes unrhyw gymal sy'n gwahardd ymgeiswyr sydd wedi mynegi barn niweidiol yn flaenorol ac yn gyhoeddus yn erbyn y myfyrwyr y gallant, o bosib, fynd ymlaen i'w cynrychioli. Ar hyn o bryd, yr unig ymddygiad a fydd yn gwahardd ymgeisydd o'r etholiad, yw twyll yn ystod y bleidlais. Ar hyn o bryd mae etholiadau'n gyfnod unigryw lle nad yw Siarter y Myfyrwyr a rheolau Cyfansoddiad yr UM yr un mor berthnasol ag y maent am weddill y flwyddyn. Nid yw cwynion am ymddygiad myfyrwyr cyn cyfnod yr etholiad yn cael eu hystyried, oherwydd nad ydynt yn digwydd yn ystod y gylchred etholiadol. Felly rydym yn awgrymu newid i Bwynt 2, Cymwysterau Etholiadol. Y gwelliant yw ychwanegu pumed is-bwynt, wedi'i eirio fel a ganlyn: Os darperir tystiolaeth, yna bydd unrhyw fyfyriwr yn ildio ei gymhwyster am rannu'n gyhoeddus neu gyhoeddi safbwyntiau sy'n mynd yn groes yn uniongyrchol i Siarter Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth, a / neu Gyfansoddiad Undeb Myfyrwyr Aberystwyth, yn ystod eu hamser fel myfyriwr ym Mhrifysgol Aberystwyth / Aelod o Undeb y Myfyrwyr.

Cyflwynwyd gan: Aaron Mark Daniels

## Rhestr Weithredu

| Camau a gymerwyd | Enw a Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|
| Aethom ni i ymofyn am gyngor cyfreithiol ar ryddid barn o ran crediniaeth ac na allwn ni rwystro cymhwyster ar sail hyn. | N/A | |
| | | |